Papur 3

CLlLC
WLGA

# Tystiolaeth CLlLC

11 Tachwedd 2022

## Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Diwygio Treth y Cyngor

Jon Rae, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Adnoddau

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o Gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**
Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Trwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod pennaf** yw hyrwyddo llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau Cynghorau yng Nghymru, eu diogelu, eu cefnogi a'u datblygu.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**
- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau'r rhyddid mwyaf yn lleol mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Dadlau o blaid cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau a'i sicrhau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithluoedd yn effeithiol

**Cyflwyniad**

Mae hwn yn ymchwiliad pwysig ac amserol ac mae'r papur briffio hwn yn seiliedig yn bennaf ar ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar "Dreth Gyngor Decach". Trafodwyd hyn yn fanwl gan arweinwyr a oedd yn bresennol yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredol CLlLC ar 30 Medi ac mae hefyd wedi cael ei ystyried gan Gymdeithas Trysoryddion Cymru a'r Grŵp Trethiant Lleol; sef grŵp sy'n cynnwys y swyddogion refeniw a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r broses o bontio i'r system newydd.

Ar y cyfan mae cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion i wneud y system o drethiant domestig lleol yn decach ac mae'n dangos Cymru ar ei gorau yn ymgynghori ar newidiadau a fyddai'n arwain at drethiant mwy graddoledig nag mewn rhannau eraill o'r DU. Ar wahân i Ogledd Iwerddon, Cymru yw'r unig wlad i gyflwyno ailbrisiad o dreth y cyngor ers pan gyflwynwyd y dreth yn 1993.

**Yr effaith bosibl o ailbrisio treth y cyngor a bandiau treth y cyngor diwygiedig ar gyllid a gweinyddiaeth llywodraeth leol.**

Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru, fe wnaethom gytuno â chasgliad yr adroddiad a gomisiynwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) y dylid ailbrisio a diwygio treth y cyngor. Y prif reswm dros wneud hyn yw bod y system bresennol wedi dyddio. Nid oes yr un system drethiant arall yn seiliedig ar werthoedd sydd bron yn 20 oed. Mae'n gwanhau hygrededd y system ariannol. Os nad yw'r sylfaen dreth yn seiliedig ar wybodaeth gyfoes, mae'n gwanhau'r contract cymdeithasol ac enw da llywodraeth leol o safbwynt y cymunedau y mae aelodau'n eu cynrychioli.

Mae gennym bryderon y gallai'r rhai sy'n gwrthwynebu'r polisi weld hyn fel ymarfer 'codi arian' a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar yr elfen gyfathrebu. Yn ogystal, credwn y dylai amseriad yr ailbrisio gael ei ystyried yn ofalus mewn perthynas â'r amodau economaidd (a ffactorau eraill) ar y pryd.

Mae'r system 'fandio' bresennol yn atchweliadol dros ben o safbwynt gwerthoedd eiddo ac yn sgil hynny, incwm. Mae i'r strwythur bandio presennol fanteision o ran rhwyddineb gweinyddu ond mae'r anghydraddoldeb o ran cyfran y dreth a delir o gymharu â gwerthoedd yr eiddo yn gwbl hysbys. Mae'r anghydraddoldeb hwn i'w weld yn glir os edrychir ar yr eiddo ar yn naill ben a'r llall i'r raddfa fandio, sef A i I. Yn y system fandio bresennol mae 57% o'r holl eiddo yn y 3 band isaf a dim ond 5% yn 3 band uchaf (G i I). Mae'r rhan fwyaf o eiddo ym Mand C. Mae 'cynffon' hir yn nosbarthiad yr eiddo nad ydynt wedi'u cipio'n llawn yn y 9 Band.

Yn ddelfrydol dylai'r system fod yn seiliedig ar brisio parhaus. Gellid edrych yn fwy manwl ar hyn. Fel y mae'r IFS yn nodi, mae hyn yn rhan o'r system bresennol yng Ngogledd Iwerddon ac yn rhywbeth a argymhellwyd mewn papur IWA gan Gerry Holtham. Ond nad yw hyn yn ateb ymarferol oherwydd cyfyngiadau deddfwriaethol yna dylid ychwanegu rhagor o fandiau.

O dan fodel yr IFS byddai 12 band ac o bosibl uchafswm o 15 yn cael eu harchwilio er mwyn cipio'r gynffon ar y pegwn dosbarthu uchaf. Ffynhonnell arall o atchweliad yw'r perthnasoedd cyfrannol rhwng y bandiau a gellid gwneud hyn yn haws i'w ddeall os yn seiliedig ar ganrannau syml yn hytrach a'r 'nawfedau' y cyfeirir atynt o dan y trefniadau presennol.

Roedd yr achos ar gyfer trefniadau pontio yn un o'r materion a drafodwyd yng Nghyfarfod Bwrdd Gweithredol CLlLC ar 30 Medi 2022 ac a amlygwyd gan arweinwyr. Os bydd y bandio yn aros yr un fath yn fras, yna dylid ystyried cyfyngu ar nifer y bandiau y gallai unrhyw aelwyd godi i fyny iddynt yn unrhyw un flwyddyn fel y digwyddodd yn ystod yr ailbrisiad blaenorol. Fel arall, cynnydd wedi'i gapio, er enghraifft o 10% yn unrhyw un flwyddyn a chymryd y gellir rheoli'r elfen o benderfyniad lleol ar gyfer y cyfrifiad. Dylid ariannu hyn y tu allan i'r system a dylai fod yn hawdd ei ddeall o safbwynt y trethdalwr ac yn hawdd i'w weinyddu.

**Y manteision a'r anfanteision posibl o ailbrisio eiddo yn rheolaidd ar weinyddiaeth llywodraeth leol, a'r effaith ar y rhai hynny sy'n gyfrifol am dalu treth y cyngor.**

Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru y dylid ailbrisio o leiaf bob pum mlynedd, a lle bo'n bosibl dylai hyn fod wedi'i ysgrifennu mewn cyfraith. Bydd ailbrisio bob pum mlynedd yn galluogi sylfaen dreth adweithiol sy'n sensitif i'r hinsawdd ariannol ac nad yw'n digwydd yn rhy aml nac yn rhy feichus.

Gydag ailbrisio mwy aml ni fyddai angen y darpariaethau sydd â'r potensial i ailfandio eiddo ar y pwynt gwerthu, lle mae gwaith sylweddol wedi cael ei gynnal. Ni fydd perchnogion presennol sydd wedi buddsoddi yn yr eiddo yn gweld unrhyw gynnydd yn eu treth cyngor ond gallai fod yn sioc i berchnogion newydd. Opsiwn tecach fyddai i welliannau i eiddo gael eu hystyried ym mhob ailbrisiad ar yr amod bod hynny'n digwydd bob 5 mlynedd.

**Effeithiolrwydd y fframwaith ar gyfer gostyngiadau ac eithriadau treth y cyngor, a sut y gallai'r system gael ei datblygu a'i gwella.**

Mae'r rhestr hon o ostyngiadau yn amlwg wedi'i datblygu dros gyfnod hir ac yn cwmpasu nifer o amgylchiadau; mae nifer y categorïau hefyd wedi tyfu ers eu cyflwyniad ym 1993. Rydym yn deall bod gweithgor wedi'i gynnull i drafod y mater hwn. Mae'r grŵp yn ceisio canfod sut mae pob gostyngiad ac eithriad yn gweithio ar hyn o bryd, os ydynt yn briodol ac yn addas i'r diben, os oes achos am newid yn seiliedig ar dystiolaeth ac os oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau presennol i wneud unrhyw newidiadau. Bydd cynigion ar gyfer newid i ostyngiadau ac eithriadau yn cael eu llywio gan gasgliadau'r gweithgor ac ymgynghorir arnynt yn fanylach maes o law.

Yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, fe wnaethom nodi y dylai fod â hyblygrwydd llawn i osod y gostyngiadau eiddo gwag ac oedolyn sengl statudol yn genedlaethol. Byddai gosod hyn yn lleol yn arwain at ormod o wahaniaethau rhwng awdurdodau lleol ac yn sbarduno cwynion ynghylch loteri cod post. Bydd ei osod yn genedlaethol yn sicrhau tegwch.

**Yr achos dros newid Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor sy'n cefnogi'r aelwydydd incwm isel mwyaf diamddiffyn, a chwmpas ar gyfer gwella'r system.**

Dylai'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor barhau i fod yn seiliedig ar brawf modd ac rydym yn deall bod dyluniad y cynllun yn fater sy'n destun trafodaethau gweithgor. Yr egwyddorion pwysicaf yw bod y cynllun yn syml i'w weinyddu ac yn hawdd i dderbynyddion y gostyngiadau ei ddeall. Mae'r ymagwedd o ran llythyrau hysbysu yn enghraifft o broses feichus. Mae llawer wedi'i ddweud am symlrwydd cymharol cynlluniau bandiau ond mewn gwirionedd nid yw cynlluniau bandiau'n syml o bell ffordd, nid ydynt yn hawdd i'w deall ac maent yn cynnwys nifer o anawsterau i'r derbynyddion. Mae'r system bresennol yn gweithio'n dda a'r cwbl sydd ei angen yw gwelliannu i sicrhau ei bod yn parhau i gefnogi aelwydydd diamddiffyn a chynyddu cyfleoedd rhannu data rhwng Awdurdodau Lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau

Dylai fod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod cynllun cenedlaethol i'w weinyddu'n lleol gan gynghorau, sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn os oes angen. Mae digwyddiadau diweddar fel y pandemig wedi dangos i ni na all y rheoliadau addasu i newidiadau sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn oherwydd bod y rheoliadau'n cael eu pennu a'u cymeradwyo a bod angen i'r awdurdod lleol wedyn fabwysiadu'r cynllun hwnnw erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn. Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau hyd nes bod y gyfres nesaf o reoliadau wedi'u pennu. Os bydd Gweinidogion Cymru yn gosod cynllun cenedlaethol gallant wneud newidiadau (gyda'r ymgynghoriad angenrheidiol ac ati) ac ymateb yn fwy effeithiol i unrhyw sefyllfaoedd sy'n codi.

Ni all adolygiad o'r CGTC fod yn effeithiol heb ailedrych ar y cyllid cysylltiedig. Nid yw'r £244m a ddyrennir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn ddigon o bell ffordd ar gyfer costau'r cynllun. Gan dderbyn mai cyd-gyfrifoldeb yw hyn ac y dylai costau cynyddol y cynllun fod â dylanwad ar dreth y cyngor a osodir, dim ond gwneud y sefyllfa hon yn waeth wnaiff y nifer cynyddol o lwythi achosion a'r argyfwng costau byw parhaus.

**Materion eraill a godwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad**

**Diffyg dewis amgen i draddodeb**
Byddai system treth y cyngor fwy teg yn gwneud cosbau'n llai tebygol, fodd bynnag, roedd pwerau amgen am gael eu trafod unwaith yr oedd colled traddodeb wedi digwydd. Yn dilyn y pandemig rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl ymatebion i'r ymchwil a gomisiynwyd ganddynt a bydd gennym ddiddordeb yn y casgliadau Mae Awdurdodau Lleol yn cael eu hunain mewn sefyllfaoedd anodd gyda rhai dyledwyr 'gwrthod talu' ac yn rhy aml o lawer yn gorfod dileu dyledion sylweddol a hynny ar draul pob trethdalwr.

**Mwy o bwerau rhannu data**

Byddai gwell rhannu data, yn arbennig rhwng yr ACC/Awdurdodau Lleol/CThEF o fantais i bawb cysylltiedig â darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Efallai y dylid edrych i mewn i hyn yn iawn fel rhan o ymrwymiad y llywodraeth hon i 'wneud treth y cyngor yn decach'. Dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf rydym wedi gweld pa mor gyflym y gall awdurdod lleol gwrdd â heriau (grantiau busnes, taliadau hunan-ynysu, tanwydd y gaeaf, taliadau costau byw) a byddem yn falch o gefnogi unrhyw weithgorau i ddatblygu trefniadau gweithio gwell rhwng yr holl gyrff cyhoeddus.